**Cofnodion Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Babanod Trallwng**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 23 Hydref 2024 |
| **Amser** | 15:45 |
| **Lleoliad** | Ysgol Babanod Trallwng |

| **Presenoldeb** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Llythrennau cyntaf yr enw** | **Teitl** |
| Gaynor Davies | GD | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| Lisa Howell | LH | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| Catrin Edwards | CE | Pennaeth Materion Trawsnewid, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu |
| Sarah Nicholls | SN | Swyddog Prosiect Cynorthwyol yr 21ain Ganrif |

1. **Croeso a Chyflwyniadau**

   Estynnodd GD groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb eu cyflwyno i'w gilydd.

2. **Trosolwg o'r Ymgynghoriad**

   Rhoddodd GD drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y Ddogfen Ymgynghori.

3. **Cwestiynau gan Aelodau o Staff ac Aelodau o'r Corff Llywodraethu**

   Gwahoddwyd y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff Ysgol Babanod Trallwng i ofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau a godwyd gan y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff a'r ymatebion a ddarparwyd wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

| Rhif | Cwestiwn/Sylw | Ymateb |
|---|---|---|
| 1. | Mae pryderon mawr ynghylch sicrwydd swyddi, ac rydyn ni'n gobeithio cael rhywfaint o sicrwydd. | Mae carfan Adnoddau Dynol (AD) y Cyngor yma i helpu. Rydyn ni wedi cynnal llawer o ymgynghoriadau dros y blynyddoedd ac yn ymdrechu i gynorthwyo lle mae modd i ni wneud hynny. Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r effaith y bydd hyn yn ei chael, a bydd carfan AD y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu drwy gydol yr ymgynghoriad, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd ag aelodau o staff. Mae'r garfan wedi cwrdd â holl aelodau o staff yn flaenorol i drafod opsiynau ac i weithio gydag unigolion i wneud penderfyniadau personol. Mae modd i garfan AD y Cyngor ddechrau helpu cyn gynted ag y bydd staff yn dymuno, ac mae modd ymgysylltu â charfan Iechyd |

| | | |
|---|---|---|
| | | Galwedigaethol y Cyngor hefyd os oes angen. |
| 2. | Soniodd y Ddogfen Ymgynghori y gallai swyddi gael eu clustnodi – beth mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd i aelodau o staff? | Mae pob Corff Llywodraethu yn penodi eu staff eu hunain, a does dim modd eu gorfodi i benodi aelodau o staff sydd wedi'u hadleoli. Bydden ni'n gofyn i Gorff Lywodraethu Ysgol Gynradd Coedpenmaen glustnodi unrhyw swyddi, ond does dim unrhyw sicrwydd y bydd hyn yn digwydd nac y byddai lleoedd gwag ar gael. Bydd carfan AD y Cyngor yn gweithio gydag aelodau o staff ac yn rhoi gwybod i Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Coedpenmaen am aelodau o staff wedi'u hadleoli. |
| 3. | A oes modd i chi egluro'r broses o glustnodi swyddi yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen – a fydden nhw'n cael eu neilltuo ar gyfer aelodau o staff o Ysgol Bro Taf, er enghraifft? | Byddai carfan AD y Cyngor bob amser yn edrych ar y lleoedd gwag sydd ar gael ac yn gofyn i Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Coedpenmaen i glustnodi swyddi ar gyfer aelodau o staff Ysgol Babanod Trallwng yn y lle cyntaf. Mae opsiynau a swyddi gweigion eraill ar gael i aelodau o staff edrych arnyn nhw. |
| 4. | Yn Ysgol Gynradd y Rhigos, nid oedd aelodau o staff yn gwybod bod yr ysgol yn cau tan fis Mehefin. Mae hyn yn peri pryder. A fyddwn ni yn y sefyllfa yma? | Mae hon yn broses ragnodol gydag amserlenni penodol i'w dilyn. Os bydd yr Adroddiad Ymgynghori'n mynd gerbron Cabinet y Cyngor ym mis Ionawr 2025, y dyddiad terfynol (ar ôl y cyfnod Hysbysiad Statudol) fyddai mis Mawrth/Ebrill 2025. Cafodd cynnig Ysgol Gynradd y Rhigos ei alw gerbron y Cabinet ar bob cam o'r broses ymgynghori, a gohiriwyd y penderfyniad terfynol gan tua chwe wythnos. |
| 5. | A fyddai modd i'r cynnig yma gael ei alw gerbron y Cabinet yn yr un modd ag Ysgol Gynradd y Rhigos? Mae'n drueni nad oes unrhyw beth i ddiogelu aelodau o staff pan fo llawer o swyddi yn y fantol. | Nid oes unrhyw sicrwydd na fydd yn cael ei alw gerbron y Cabinet – gallai'r un peth ddigwydd yma a ddigwyddodd yn Ysgol Gynradd y Rhigos. |
| 6. | Mae'n annheg aros tan y funud olaf i swyddi gael eu clustnodi. Bydd aelodau o staff yn colli cyfleoedd. | Byddai carfan AD y Cyngor yn gweithio drwy'r broses ar y sail bod y cynnig yn mynd rhagddo, fel bod unrhyw waith paratoi gydag aelodau o staff sydd ei angen eisoes wedi'i wneud. |
| 7. | Cafwyd datganiad gan Gynghorydd Lleol y bydd raid i ddisgyblion Ysgol Babanod Trallwng fynd i Ysgol Gynradd Coedpenmaen – ydy hyn yn gywir? Mae sïon hefyd y byddai | Mae modd i rieni/gwarcheidwaid wneud cais i unrhyw ysgol. Bydd y meini prawf derbyn i ysgolion yn dechrau os yw ysgol yn llawn. |

| | | |
|---|---|---|
| | disgyblion yn mynd i Ysgol Bro Taf. | |
| 8. | Does dim i'w weld yn cyd-fynd â phroses drawsnewidiol o ystyried yr amserlenni tynn (diswyddiadau, swyddi gwag, ac ati). Pam nad ydych chi'n gofalu am bobl? | Mae'r Cyngor yn deall bod hwn yn gyfnod ansefydlog a heriol. Rydyn ni wedi gweithio'n galed yn hanesyddol i helpu gydag adleoli aelodau o staff. Mae hwn yn benderfyniad gwleidyddol yn seiliedig ar ddata a gwybodaeth. Mae rhwymedigaeth statudol i gadw lleoedd mewn ysgolion a lleoedd dros ben dan adolygiad er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus. |
| 9. | Mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol i ddarparu addysg. Nid yw cael gwared ar ysgol yn gwneud hynny. | Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (2018/11) yn nodi pa ddata sydd ei angen yn y Ddogfen Ymgynghori i ddangos yr holl ffactorau i Gabinet y Cyngor. Bydd adborth y cyhoedd hefyd yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori i Gabinet y Cyngor. |
| 10. | Mae gwrthddywediadau yn y Ddogfen Ymgynghori ynglŷn â buddsoddiad (£227,000 ar gynnal a chadw – does neb wedi gweld rhestr o'r hyn y mae'r arian yma'n ei gynnwys). | Mae'r arolwg o gyflwr yr adeilad yn cynnwys rhestr o'r gwaith sydd angen ei wneud. |
| 11. | Pam ydych chi wedi gwario arian ar Ysgol Babanod Trallwng yn ddiweddar pan mae hyn yn ddefnydd o arian cyhoeddus? Pryd cafodd y penderfyniad i gau Ysgol Babanod Trallwng ei wneud? | Defnyddiwyd cyllid grant 2023/2024 ar gyfer pethau megis Prydau Ysgol am Ddim Cyffredinol, ac ati, yr oedd yn rhaid i ni eu darparu. Does dim modd i'r Cyngor rag-benderfynu a fydd unrhyw ysgol yn cau, ac felly rhaid iddo gadw ysgol i fynd. Mae gwelliannau i'r gegin a'r ystafell synhwyraidd yn enghreifftiau o'r hyn y cafodd yr arian ei wario arno. Mae'n bwysig inni ddarparu ar gyfer anghenion y plant. |
| 12. | Mae'n wael iawn buddsoddi mewn adeilad a fydd yn cael ei adael yn wag. | Mae llawer o offer y mae modd eu hailddefnyddio. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto, ac mae gyda ni ddyletswydd i wneud yn siŵr bod holl ysgolion Rhondda Cynon Taf yn addas at y diben ar gyfer disgyblion ac aelodau o staff. |
| 13. | Yn eich profiad chi, faint o ysgolion sydd wedi ennill eu hymgynghoriadau? | Mae nifer o ysgolion ledled Cymru wedi llwyddo i wrthwynebu ymgynghoriad. Yn Rhondda Cynon Taf, bu ymgynghoriad ysgol ychydig yn ôl nad aeth rhagddo. Weithiau caiff amrywiadau i'r cynigion eu gwneud (newidiadau dalgylch, dosbarthiadau cynnal dysgu, ac ati.) Pe na baem yn teimlo bod yr achos yn un cryf, fydden ni ddim yn cyflwyno'r cynnig gan fod modd iddo beri gofid. |

| | | |
|---|---|---|
| 14. | Mae'n rhwystredig teimlo ein bod ni'n mynd drwy'r broses yma oherwydd mae 99.0% o'r cynigion yn mynd rhagddyn nhw. Mae'n annheg a dydyn ni ddim yn gwybod beth i'w wneud. | Mae hyn wedi cael ei fwydo'n ôl i Lywodraeth Cymru o'r blaen mewn perthynas â hyd yr ymgynghoriadau, gan ein bod ni'n effro i'r gofid y mae modd iddyn nhw ei achosi. |
| 15. | Mae data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn y Ddogfen Ymgynghori yn awgrymu bod y cynnig wedi digwydd dros gyfnod o amser yn seiliedig ar niferoedd disgyblion. Beth oedd y sbardun ar gyfer yr ymgynghoriad yma? | Rhaid i ni edrych yn rheolaidd ar ffactorau lluosog dros amser i ddechrau edrych ar y mathau yma o gynigion (ffigurau yn y dalgylch/tu allan y dalgylch, costau cynnal a chadw, ac ati). Rhaid i'r data yn y Ddogfen Ymgynghori fod yn gyfredol. |
| 16. | Yn flaenorol, roedd yn rhaid i benderfyniadau fod yn seiliedig ar sefyllfa addysgol. | Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn ymdrin â'r holl wybodaeth ofynnol i gyflwyno'r cynnig yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion statudol Llywodraeth Cymru 2018 (2018/11). Rydyn ni'n edrych ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, yr effaith ar addysgu a dysgu ysgolion bach sydd â chyllidebau llai. Ymgynghorwyd ag Estyn ar y cynnig yma – rydyn ni'n aros am ymateb. |
| 17. | A fyddai modd i garfan Addysg y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet dros Addysg ddweud na fydd disgyblion Ysgol Babanod Trallwng yn cael darpariaeth addysg o safon is? | Mae hyn yn rhywbeth y bydd Estyn yn rhoi sylwadau arno yn eu hymateb i'r cynnig. |
| 18. | Roedd yr amserlen (blwyddyn) yn sioc. Pe bydden ni'n gwybod yn gynharach, byddai rhieni/gwarcheidwaid ac aelodau o staff wedi teimlo'n well. A ystyriwyd uno ag Ysgol Gynradd Coedpenmaen erioed? | Y cynnig yw'r opsiwn rydyn ni'n credu oedd y gorau i'w gyflwyno. Mae modd i unrhyw ddewisiadau neu safbwyntiau eraill gael eu cyflwyno yn y ffurflenni adborth. |
| 19. | A oes lle diogel yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Babanod Trallwng? | Oes, mae'r holl wybodaeth am niferoedd disgyblion yn y Ddogfen Ymgynghori. |
| 20. | Mae'r data CYBLD yn y Ddogfen Ymgynghori yn gwrth-ddweud ei gilydd. Rydych chi'n defnyddio'r data i ysgrifennu'r naratif rydych chi ei eisiau. Mae'r gost fesul plentyn hefyd yn wahanol i ddata Llywodraeth Cymru. Nid oes gan y Ddogfen Ymgynghori ffigurau dros dro na chostau'r hyn a gaiff ei arbed. | Mae'r data yn y Ddogfen Ymgynghori yn gywir. Dydyn ni ddim yn byw mewn hinsawdd ariannol hawdd, a rhaid inni ystyried effeithiolrwydd cadw ysgolion bach ar agor. Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (2018/11), ond mae modd i ni ddarparu costau staffio a chynnal yr adeilad os oes angen. |

| | | |
|---|---|---|
| 21. | Pwy fydd yn anfon eu plentyn i ysgol sy'n destun ymgynghoriad? | Dewis rhiant/gwarcheidwaid yw hyn. Mae'n anodd gwneud rhagdybiaethau neu roi atebion cadarn. |
| 22. | Nid oes unrhyw sail resymegol gref y tu ôl i'r cynnig. | Mae'r holl wybodaeth yn y Ddogfen Ymgynghori. Mater i Gabinet y Cyngor yw penderfynu a fydd yn bwrw ymlaen â'r cynnig. Bydd unrhyw adborth yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori. |
| 23. | Mae'r honiad bod lle yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn gwrth-ddweud argymhellion adroddiad diwethaf Estyn. | Aethpwyd i'r afael ag argymhelliad Estyn. |
| 24. | A fyddai angen adeiladau ychwanegol yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen? | Nid oes angen lle ychwanegol yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen, mae lle ar gyfer yr holl ddisgyblion oedran ysgol statudol. Bydd angen gwneud rhai addasiadau i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion iau. |
| 25. | A yw'n gywir nad oes modd i rieni/gwarcheidwaid wneud cais am le tan fis Mehefin 2025. | Does dim modd i rieni/gwarcheidwaid wneud cais i drosglwyddo yn ystod y flwyddyn a chadw eu lle presennol yn Ysgol Babanod Trallwng. Does dim materion capasiti yn yr ardal. |
| 26. | Bydd disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn ei chael hi'n anodd â'r broses bontio, sydd angen dechrau nawr. Pa gymorth bydd ar gael? Does dim lle mewn darpariaeth arbenigol felly bydd raid iddyn nhw wneud cais i ysgol gynradd brif ffrwd tra bod penderfyniadau'n cael eu gwneud. | Does dim byd yn sicr, ac rydyn ni'n deall ei fod yn heriol. Rhaid i ni sicrhau nad oes unrhyw blentyn dan anfantais oherwydd y penderfyniad yma. Mae'n anodd gan nad oes modd i ni achub y blaen ar y penderfyniad. |
| 27. | Mae Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn dod allan o fesurau arbennig Estyn. Mae'r cynnig yma'n rhoi pwysau ar y staff i lenwi'r ysgol. A ninnau'n rhieni/gwarcheidwaid, mae gyda ni bryderon ac rydyn ni'n meddwl ei fod yn annheg ar Ysgol Gynradd Coedpenmaen. | Rhaid i ni dderbyn eu bod allan o fesurau arbennig Estyn – mae arolygiadau Estyn yn adlewyrchu pwynt penodol mewn amser. Mae'n ddewis i rieni/gwarcheidwaid ei wneud, ond rydyn ni'n hyderus y bydd Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn mynd o nerth i nerth. |
| 28. | Unwaith y bydd y penderfyniad wedi'i wneud, a oes modd i ni wneud cais ar gyfer trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn? | Bydd carfan Derbyn Disgyblion y Cyngor yn siarad â'r holl rieni/gwarcheidwaid i'w cefnogi drwy'r broses. Mae angen i ni sicrhau bod y broses bontio yn gadarn. |
| 29. | A oes dewis rhwng adleoli swydd neu ddiswyddo? Os ydyn ni'n anhapus â'r adleoli, a oes modd i ni wedyn ystyried diswyddo? | Bydd carfan AD y Cyngor yn edrych am gyfleoedd adleoli sy'n gweithio i'r aelodau o staff. Os yn aflwyddiannus, fydd y ffigwr diswyddo ddim yn newid. |

| | | |
|---|---|---|
| 30. | Pryd bydd y cyfnod ail-leoli yn dod i ben? | Bydd carfan AD y Cyngor yn cyhoeddi'r hysbysiad i athrawon erbyn diwedd mis Mai 2025. Bydd swyddi adleoli yn cael eu hystyried hyd at ddiwedd mis Awst 2025. 1 Medi 2025 yw diwedd y cyfnod ail-leoli. 31 Awst 2025 yw diwedd y cyfnod diswyddo. Bydd carfan AD y Cyngor yn gweithio gydag aelodau o staff, ac mae modd i'r swyddi ail-leoli fod â chyfnodau prawf i sicrhau bod yr holl bartïon yn hapus â'r sefyllfa. |
| 31. | Os byddwn ni'n aflwyddiannus erbyn mis Awst 2025 ac yn gorfod diswyddo, beth fydd yn digwydd? | Rhaid i aelodau o staff gael toriad cyflogaeth am 28 diwrnod i gadw eu diswyddiad. Mae yna wahanol gynlluniau gyda rheolau gwahanol ynghlwm iddyn nhw. Bydd carfan AD y Cyngor yn cefnogi aelodau o staff gyda hyn. |
| 32. | Pryd mae modd i ni gael ffigurau diswyddiad? | Dim ond chwe mis ymlaen llaw y mae modd rhoi ffigurau, ond mae modd rhoi amcangyfrif cyn hynny. Mae modd i garfan AD y Cyngor weithio gydag aelodau o staff i wneud hyn unrhyw bryd. |
| 33. | Pryd wnaeth y cyngor gais i'r Ddogfen Ymgynghori gael ei drafftio? | Yn ystod yr haf. Mae modd i ysgrifennu Dogfennau Ymgynghori fod yn ddwys, a chaiff y cynigion eu cadw'n gyfrinachol, hyd yn oed yng ngharfan Ysgolion 21ain Ganrif y Cyngor. |
| 34. | Bydden ni'n gwerthfawrogi tryloywder ar y cynnig gan y byddai'n ein helpu i wneud penderfyniadau. Mae'r effaith y gallai hyn ei gael ar ddisgyblion yn peri pryder i rieni/gwarcheidwaid. | Dyw'r mathau yma o gynigion ddim yn digwydd yn aml iawn – mae'r cyfan yn dibynnu ar y sefyllfa. Mae carfan AD y Cyngor yn gweithio'n galed gydag ysgolion i liniaru'r effaith negyddol. Rydyn ni'n deall ei fod yn gyfnod ansefydlog, ond byddwn ni'n gweithio mor galed ag y gallwn ni mewn partneriaeth â'r ysgol. |
| 35. | A oes unrhyw gyfleoedd am secondiadau ar gyfer sicrwydd swydd? | Mae secondiadau am gyfnod o amser yn unig. Mae carfan AD y Cyngor wedi bod mewn cysylltiad â'r pennaeth, ond does dim modd i ni danseilio'r Corff Llywodraethu, sy'n gyfrifol am staffio. |
| 36. | * Datganiad yw hwn, nid cwestiwn. Gwnaeth un o’n deiliaid Cyfrifoldeb Addysgu ac Arweinyddiaeth (CAD) gais am y ddwy swydd CAD yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen ac, er bod gyda hi berthynas waith a phroffesiynol dda gyda’r uwch garfan arweinyddiaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen, | Wedi'i nodi. |

| | | |
|---|---|---|
| | dywedwyd wrthi ddoe ei bod aflwyddiannus. Rydw i'n gwybod, o gael y cyfle, y bydd yn cael gwybod bod ymgeisydd arall wedi gwneud yn well na hi ar y diwrnod – ateb hawdd. Waeth beth fo'r cyflawniad ar y diwrnod, mae rhan fwyaf o'r panel cyfweld yn effro i'r profiadau a'r rhinweddau y gallai'r aelod yma o staff fod wedi'u rhoi ar waith yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen.<br><br>Mae staff wedi cael gwybod y bydd swyddi islaw lefel arweinyddiaeth yn cael eu neilltuo yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen. Serch hynny, yng ngoleuni digwyddiadau diweddar mae'r addewid o swyddi wedi'u neilltuo a gofalu am y staff yn teimlo fel geiriau gwag ac mae dweud bod lles staff Ysgol Babanod Trallwng wedi cael effaith negyddol wir yn danddatganiad.<br><br>Mae staff Ysgol Babanod Trallwng yn teimlo ei bod wedi dod yn achos o 'nhw' a 'ni', yn hytrach na chydweithio ar adeg sy'n hynod o anodd ac ansicr i bawb yma. Dydw i ddim eisiau ymateb, ond rwy'n teimlo y dylai pawb yma wybod dyfnder y teimlad a'r siom a gaiff ei deimlo ar hyn o bryd.<br><br>*_Datganiad wedi'i ddarllen gan Lywodraethwr yr Ysgol a gofynnwyd iddo gael ei gynnwys yn llawn._ | |

**4. Sylwadau i Gloi**

Hysbyswyd y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff y bydd cyfle iddyn nhw fyfyrio ar y cwestiynau a'r ymatebion a ddarparwyd, a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen dros yr wythnos nesaf.

Mae'r Corff Llywodraethu ac aelodau o staff wedi cael eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:15.